Senedd Cymru
**Y Llywydd | Presiding Officer**

# Penderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol

## Gwelliannau i Fil Cyhoeddus

Mai 2022

Mae'r Llywydd wedi penderfynu, o dan Reol Sefydlog 26.58, fod rhaid i ffurf gwelliannau i Fil Cyhoeddus (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "Bil") fod fel a ganlyn:

### Cyffredinol

**1.** Nid yw gwelliant i Fil yn dderbyniol oni bai ei fod yn gyson â Phenderfyniad y Llywydd o ran Ffurf Briodol Biliau Cyhoeddus ar gyfer Deddfau'r Senedd.

**2.** At ddibenion y Penderfyniad hwn, ystyr Bil Cyhoeddus yw: Bil a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26, Bil Hybrid a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26B, neu Fil Cydgrynhoi a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26C.

**3.** Mae gwelliant i Fil yn cael cynnig un newid yn unig i destun y Bil; mae gwelliant i welliant yn cael cynnig un newid yn unig i destun y gwelliant hwnnw.

(Noder: rhaid i'r rheolau hyn gael eu darllen yn ddarostyngedig i baragraff 38.)

Mae "newid" (ac eithrio'r math o newid y cyfeirir ato ym mharagraff 38) yn golygu naill ai:

a. hepgor testun a mewnosod testun gwahanol yn ei le;

b. hepgor testun (heb osod unrhyw destun); neu

c. mewnosod testun (heb hepgor unrhyw destun).

Pan fo cysylltiad rhwng nifer o newidiadau (e.e. hepgor un gair a mewnosod gair arall mewn nifer o fannau gwahanol yn nhestun y Bil neu'r gwelliant (yn ôl fel y digwydd)), er gwaethaf y cysylltiad mae'n rhaid i bob un gael ei drafod mewn gwelliant ar wahân.

**4.** Ni chaiff gwelliant unigol newid testun mwy nag un adran neu atodlen (e.e. ni chaiff gwelliant "Hepgor adrannau 5 i 7" – byddai angen tri gwelliant ar wahân, gyda phob un ohonynt yn hepgor un o'r adrannau).

**5.** Nid yw gwelliant yn cael cynnig newid i ran o air (e.e. er mwyn newid "merch" yn "merched", dylai gwelliant hepgor "merch" a mewnosod "merched", ac nid ychwanegu "-ed" ar ddiwedd "merch".)

## Ffurf Gwelliannau

### Gwelliannau sy'n hepgor testun ac yn mewnosod testun gwahanol

**6.** Rhaid i welliannau i fewnosod adran neu atodlen newydd yn lle'r rhai presennol fod ar y ffurf:

> *Tudalen x, llinell x, hepgorer [adran / atodlen x] a mewnosoder—*
>
> *'testun yr adran / atodlen newydd'.*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr adran neu'r atodlen sydd i'w hepgor, gan anwybyddu'r teitl, oni bai fod teitl newydd i'w fewnosod yn lle'r un presennol, ac os felly y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf y teitl. Os bwriedir mewnosod teitl newydd yn lle'r un presennol, rhaid i destun y teitl newydd gael ei gynnwys yn y testun sydd i'w fewnosod.

**7.** Rhaid i welliannau i fewnosod un neu fwy o is-adrannau newydd neu baragraffau atodlen newydd yn lle'r rhai presennol fod ar y ffurf:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, hepgorer [is-adran (is-adrannau) / paragraff (paragraffau) x (hyd at y)] a mewnosoder—*
>
> *'testun yr is-adran (is-adrannau) / paragraff (paragraffau) newydd'.*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr is-adran / is-adrannau neu'r paragraff / paragraffau atodlen sydd i'w hepgor, gan anwybyddu, yn achos paragraffau atodlen, unrhyw groesbennawd, oni bai fod croesbennawd newydd i'w fewnosod yn lle'r un presennol, ac os felly y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf y croesbennawd. Os bwriedir mewnosod

croesbennawd newydd yn lle'r un presennol, rhaid i destun y croesbennawd newydd gael ei gynnwys yn y testun sydd i'w fewnosod.

**8.** Rhaid i welliannau i fewnosod un neu fwy o israniadau newydd, heblaw is-adrannau neu baragraffau atodlen, yn lle'r rhai presennol, fod ar y ffurf:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, hepgorer [llinell x neu linellau x hyd at y] a mewnosoder—*
>
> *'testun yr israniad/israniadau newydd'.*

(Sylwer: ystyr israniad yn y paragraff hwn yw israniad â rhif neu lythyren mewn is-adran neu baragraff atodlen e.e. paragraff o fewn is-adran neu is-baragraff mewn paragraff atodlen.)

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf yr israniad sydd i'w hepgor.

**9.** Rhaid i welliannau i fewnosod cyfuniad o un neu fwy o israniadau neu is-adrannau newydd yn lle cyfuniad o israniadau ac is-adrannau presennol fod ar ffurf:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, hepgorer [llinellau x hyd at y] a mewnosoder—*
>
> *'testun yr israniadau newydd'.*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf yr israniad sydd i'w hepgor.

**10.** Rhaid i welliannau i fewnosod testun newydd yn lle testun presennol (heblaw'r rhai sy'n syrthio o fewn paragraffau 6 i 9) fod ar y ffurf:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, hepgorer [gan nodi'r geiriau sydd i'w hepgor] a mewnosoder 'y testun sydd i'w fewnosod'.*

Y rhif llinell y cyfeirir ato yw rhif y llinell y mae gair cyntaf y testun i'w hepgor yn ymddangos arni.

**11.** Rhaid i welliannau i fewnosod tabl neu ffigur newydd yn lle un presennol fod ar ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, hepgorer [Tabl x / Ffigur x] a mewnosoder—*

*[Tabl x / Ffigur x]*

Y rhif llinell y cyfeirir ato yw rhif y llinell y mae rhes gyntaf y tabl sydd i'w adael allan yn ymddangos arni, gan anwybyddu Rhif y Tabl. Pan fydd tabl yn cael ei ddisodli gan dabl newydd, rhaid i'r Rhif Tabl presennol aros yr un fath.

## Gwelliannau sy'n hepgor testun yn unig

**12.** Rhaid i welliannau i hepgor adran neu atodlen fod ar y ffurf:

*Tudalen x, llinell x, hepgorer [adran / atodlen x].*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr adran neu'r atodlen sydd i'w hepgor, gan anwybyddu'r teitl. Effaith hepgor yr adran neu'r atodlen fydd bod y teitl hefyd yn cael ei hepgor.

**13.** Rhaid i welliannau i hepgor un neu fwy o is-adrannau neu baragraffau atodlen fod ar y ffurf:

*Adran x, tudalen x, llinell x, hepgorer is-adran(nau) (x) i (y).*

neu

*Atodlen x, tudalen x, llinell x, hepgorer paragraff(au) (x) i (y).*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr is-adran neu'r paragraff atodlen sydd i'w hepgor, gan anwybyddu, yn achos paragraff atodlen, unrhyw groesbennawd. Pan fo croesbennawd yn cyfeirio at un paragraff atodlen yn unig, effaith hepgor y paragraff fydd bod y croesbennawd hefyd yn cael ei hepgor.

**14.** Rhaid i welliannau i hepgor un neu fwy o israniadau heblaw isadrannau neu baragraffau atodlen fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, gadewch allan [llinell x / llinellau x i y].*

(Sylwer: ystyr israniad yn y paragraff hwn yw israniad â rhif neu lythyren mewn is-adran, paragraff atodlen neu is-baragraff atodlen e.e. paragraff o fewn is-adran neu is-is-baragraff mewn is-baragraff atodlen.)

**15.** Rhaid i welliannau i hepgor cyfuniad o israniadau ac is-adrannau presennol fod ar ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, hepgorer [llinellau x hyd at y]*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf yr israniad sydd i'w hepgor.

**16.** Rhaid i welliannau i hepgor testun arall fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, hepgorer 'gan nodi'r geiriau sydd i'w hepgor'.*

Y rhif llinell y cyfeirir ato yw rhif y llinell y mae gair cyntaf y testun i'w hepgor yn ymddangos arni.

**17.** Rhaid i welliannau i hepgor Tabl neu Ffigur fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, hepgorer Tabl x / Ffigur x*

Y rhif llinell y cyfeirir ato yw rhif y llinell y mae rhes gyntaf y tabl sydd i'w adael allan yn ymddangos arni, gan anwybyddu Pennawd y Tabl. O ganlyniad i hepgor tabl, bydd Pennawd y Tabl hefyd yn cael ei hepgor.

## Gwelliannau sy'n mewnosod testun yn unig

**18.** Rhaid i welliannau i fewnosod adrannau neu atodlenni newydd yn y Bil fod ar y ffurf:

*Tudalen x, ar ôl llinell x, mewnosoder adran / atodlen newydd—*

ac wedyn testun yr adran neu'r atodlen arfaethedig gan gynnwys unrhyw groesbennawd arfaethedig.

**19.** Os yw'r testun newydd sydd i'w fewnosod yn dechrau ar ddechrau llinell ac yn ymestyn dros y llinell gyfan, rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, ar ôl llinell x, mewnosoder—*

*'y testun sydd i'w fewnosod'.*

lle mae "llinell x" yn cyfeirio at y llinell yn union cyn y man lle y mae'r testun newydd i gael ei fewnosod.

**20.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 18 a 20 i 21, rhaid i welliannau i fewnosod testun newydd (heblaw adrannau neu atodlenni newydd) yn y Bil fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, ar ôl 'gan nodi'r gair yn union cyn y testun sydd i'w fewnosod', mewnosoder—*

*'y testun sydd i'w fewnosod'.*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif y llinell y gwelir gair cyntaf y testun sydd i'w fewnosod arni.

**21.** Os yw'r testun newydd sydd i'w fewnosod yn dechrau ar ddechrau llinell (ond nad yw'n ymestyn dros y llinell gyfan), rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, ar ddechrau llinell x, mewnosoder 'y testun sydd i'w fewnosod'.*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif y llinell y mae testun i'w fewnosod arni.

**22.** *Rhaid i welliannau i fewnosod Tabl neu Ffigur newydd fod ar y ffurf:*

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, ar ôl llinell x, mewnosoder—*

*[Tabl x / Ffigur x]*

lle mae "llinell x" yn cyfeirio at y llinell yn union cyn y man lle y mae'r tabl newydd i gael ei fewnosod.

## Gwelliannau i destun a gyflwynir ar ffurf colofnau

**23.** Os bydd testun yn ymddangos ar ffurf ac iddi fwy nag un golofn, er enghraifft os yw'r testun yn ymgorffori tabl, rhaid i'r gwelliant fod ar un o'r ffurfiau canlynol:

**24.** Os yw'r gwelliant yn ymwneud â thestun a gyflwynir mewn un golofn o fewn rhes tabl, rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf ganlynol:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, Tabl x, llinell x, colofn x, hepgorer '[gan nodi'r geiriau sydd i'w hepgor]' a mewnosoder 'testun'.*

neu yn ôl fel y digwydd, gan ddibynnu ar y math o welliant.

(Sylwer: Os yw colofn yn cael ei nodi yn y testun gan rif neu lythyren rhaid defnyddio hon i'w nodi. Os nad ydyw, dylid cyfeirio at y golofn trwy gyfrif o'r chwith (e.e. colofn un, colofn dau ayb.))

**25.** Os yw'r gwelliant i fewnosod un neu fwy o resi newydd yn lle'r rhai presennol, rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf ganlynol:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, Tabl x, hepgorer [llinell x / llinell x i y], a mewnosoder-*
>
> *'[testun rhes(i) newydd – wedi'u gosod mewn colofnau]'.*

Y rhif(au) llinell y cyfeirir atynt yw rhif y/rhifau'r llinell(au) y mae'r rhes(i) sy'n cael eu hepgor yn ymddangos arnynt. Rhaid i nifer y colofnau o fewn y rhes(i) sy'n cael eu mewnosod fod yr un fath â nifer y colofnau yn y tabl y mae'r rhes(i) yn cael ei mewnosod / eu mewnosod ynddi/ynddynt. Dim ond gydag un gwelliant y gellir mewnosod rhesi lluosog os ydynt yn cael eu mewnosod yn union ar ôl ei gilydd yn y tabl.

**26.** Os yw'r gwelliant i hepgor rhes(i) cyfan o fewn tabl, rhaid i'r gwelliant fod yn y ffurf ganlynol:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, Tabl x, hepgorer [llinell x / llinell x i y]* .

Y rhif(au) llinell y cyfeirir atynt yw rhif y/rhifau'r llinell(au) y mae'r rhes(i) sy'n cael eu hepgor yn ymddangos arnynt. Dim ond gydag un gwelliant y gellir hepgor rhesi lluosog os ydynt yn union ar ôl ei gilydd yn y tabl.

**27.** Os yw'r gwelliant i fewnosod un neu fwy o resi newydd o fewn tabl, rhaid i'r gwelliant fod ar y ffurf ganlynol:

> *[Adran / Atodlen x], tudalen x, Tabl x, ar ôl llinell x, mewnosoder-*
>
> *'[testun rhes(i) newydd – wedi'u gosod mewn colofnau]'.*

**28.** Rhif y llinell y cyfeirir ato yw rhif y llinell yn union cyn y man lle y mewnosodir y rhes(i) newydd. Rhaid i nifer y colofnau o fewn y rhes(i) sy'n cael eu mewnosod fod yr un fath â nifer y colofnau yn y tabl y mae'r rhes(i) yn cael ei mewnosod / eu mewnosod ynddi/ynddynt. Dim ond gydag un gwelliant y gellir mewnosod rhesi lluosog os ydynt yn cael eu mewnosod yn union ar ôl ei gilydd yn y tabl.

## Gwelliannau i symud adran neu atodlen heb ei gwella fel arall

**29.** Rhaid i welliannau i symud adran neu atodlen o'r naill le i'r llall yn y Bil, heb ei gwella fel arall, fod ar y ffurf:

> *Tudalen x, llinell x, symuder [adran x /atodlen x] a'i fewnosod ar ôl [adran x /atodlen x]*

Y rhif llinell y mae'n rhaid cyfeirio ato yw rhif llinell gyntaf testun yr adran neu'r atodlen sydd i'w symud, gan anwybyddu'r teitl. Effaith symud yr adran neu'r atodlen fydd y bydd y teitl hefyd yn cael ei symud.

## Nodi'r newidiadau sydd i'w gwneud

**30.** Ym mhob gwelliant, rhaid i eiriau sy'n ymddangos yn y Bil a geiriau sydd i'w hepgor neu eu mewnosod gael eu gosod mewn dyfynodau sengl (e.e. ar ôl 'Senedd', mewnosoder 'Cymru').

**31.** Mewn gwelliannau i hepgor geiriau a mewnosod geiriau newydd, rhaid i'r geiriau cyntaf neu'r geiriau olaf sydd i'w mewnosod beidio â bod yr un peth â'r geiriau cyntaf neu'r geiriau olaf sydd i'w hepgor (e.e. rhaid i welliant beidio â hepgor 'Senedd' a mewnosod 'Senedd Cymru'). Y ffurf gywir ar welliant fyddai: ..ar ôl 'Senedd', mewnosoder 'Cymru').

**32.** Rhaid i welliannau i hepgor geiriau wneud hynny drwy gyfeirio at y geiriau hynny.

**33.** Rhaid i'r testun sydd i'w fewnosod gael ei osod ar y ffurf y bwriedir iddo ymddangos ynddi yn y Bil. Os yw'r testun sydd i'w fewnosod yn ymgorffori is-adrannau / paragraffau atodlen ychwanegol (neu israniadau ychwanegol eraill) rhaid iddynt naill ai fod heb rif neu gael eu rhifo fel na fydd rhaid ail-rifo'r darpariaethau presennol yn y Bil.

**34.** Os bydd y gwelliant yn cyfeirio at air sy'n ymddangos fwy nag unwaith ar y llinell, rhaid i'r gwelliant nodi pa un o'r troeon y mae'r gair yn ymddangos a fwriedir. Rhaid iddo fod ar y ffurf ganlynol, a'i addasu lle bo angen, yn dibynnu ar y math o welliant:

> *[Adran x / Atodlen x], tudalen x, llinell x, ar ôl 'gair' yn y [lle cyntaf / yr ail / trydydd / pedwerydd le] lle mae'n ymddangos, mewnosoder 'testun i'w fewnosod'.*

**Amrywiol**

**35.** Rhaid i welliannau i'r teitl hir ddechrau:

*Teitl hir, tudalen 1, llinell x, ...*

**36.** Rhaid i welliannau i welliannau ddechrau fel a ganlyn:

*Fel gwelliant i welliant x, ...*

gan ddilyn yn gyffredinol y ffurf sy'n cyfateb i welliannau i destun y Bil ei hun ond gan gyfeirio at linell y gwelliant, fel y bo'n briodol.

Wrth gyfeirio at linell y gwelliant, ni ddylid cynnwys llinell gyntaf sydd ond yn cynnwys cyfarwyddyd, e.e. ni ddylid cyfrif 'Adran x, tudalen x, llinell x, mewnosoder—'.

## Iaith Gwelliannau

**37.** Caiff gwelliant gynnig newid i destun yn y naill iaith heb newid cyfatebol i destun yr iaith arall, er enghraifft er mwyn dileu anghysondeb rhwng ystyr y ddau destun neu i ddileu gwall iaith a geir yn un o'r ddau destun yn unig. Rhaid i welliant o'r fath fod ar y ffurf:

*[Adran / Atodlen x], tudalen x, llinell x, hepgorer [gan nodi'r geiriau sydd i'w hepgor] a mewnosoder 'y testun sydd i'w fewnosod'.*

*(Nid oes angen gwella'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.)*

neu yn ôl fel y digwydd, gan ddibynnu ar y math o welliant.

(Sylwer: Effaith Rheol Sefydlog 15.4 yw bod yn rhaid i welliannau i Fil a gyflwynir gan y Llywodraeth, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellir cyflwyno gwelliannau a gyflwynir heblaw gan y Llywodraeth naill ai yn y ddwy iaith neu mewn un iaith yn unig).

**38.** Bydd hyd a lled y newid y bydd ei angen er mwyn bodloni amcan gwelliant yn y naill iaith yn aml yn wahanol i'r hyn sydd ei angen i'w fodloni yn y llall (e.e. gallai newid sy'n effeithio ar un gair Saesneg olygu bod angen newid dau air Cymraeg, neu vice versa). Er hynny, bydd bron bob amser yn bosibl mynegi'r gwelliant fel un newid yn y ddwy iaith. Yn eithriadol, caniateir cynnwys mwy nag un newid yn y fersiwn o'r gwelliant yn y naill iaith ar yr amod bod y fersiwn o'r gwelliant yn yr iaith arall yn gwneud un newid yn unig. Er enghraifft:

> Er enghraifft: Section x, page x, line x, after ‘school’, insert ‘do not, subject to subsection (3),’.
>
> *Adran x, tudalen x, ar ddechrau llinell x, hepgorer ‘Mae’r’ a mewnosoder ‘Nid yw’r’; llinell y, ar ôl ‘ysgol’ mewnosoder ‘, yn ddarostyngedig i is-adran (3),’.*